## Atodiad 4a

## Tystiolaeth o ymgysylltiad rhwng athrawon a disgyblion cyn cyfarfod y Senedd

| **Campws Heol Rose Heyworth: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 2)** |
|---|
| Pam maen nhw'n cau Rose Heyworth?<br>Pam fydd yr ysgol yn cau ar hap?<br>Ond pam mae'n cau? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):**<br>• Dydw i ddim eisiau i'r ysgol gau oherwydd mae fy holl ffrindiau yma yn Rose Heyworth<br>• Mae'r holl athrawon yn gweithio mor galed i wneud yr ysgol mor brydferth i ni<br>• Dydw i ddim yn hoffi cerdded i'r ysgol ac mae Stryd Tyleri yn bell iawn i ffwrdd<br>• Yn bendant dydw i ddim eisiau i'r ysgol gau – yr ysgol yw fy hoff le<br>• Bydda i'n colli fy athrawon os bydd Rose Heyworth yn cau<br>• Rwy'n drist<br>• Rwy'n caru fy ysgol – mae fy ffrindiau i gyd yma a fy holl athrawon hefyd<br>• Dydw i ddim eisiau i'r ysgol gau. Dw i'n hoffi fy ysgol<br>• Rydyn ni'n brwydro dros gadw Rose Heyworth ar agor<br>• Pleidleisiais na oherwydd dw i wrth fy modd â'r ysgol hon<br>• Pleidleisiais na oherwydd dw i wrth fy modd â Miss Smith a'm holl athrawon a dw i'n hoffi bod gyda fy ffrindiau<br>• Dydw i ddim eisiau iddi gau oherwydd dw i wrth fy modd â lliw fy nghardigan<br>• Dydw i ddim eisiau symud ysgol oherwydd dw i wrth fy modd â hi<br>• Dydw i ddim eisiau iddi gau oherwydd dw i eisiau aros gyda fy ffrindiau<br>• Pleidleisiais na oherwydd dyna pam nad ydw i eisiau symud i ysgol wahanol<br><br>**5 yn cefnogi'r cynnig; 23 yn peidio â chefnogi'r cynnig** |

| **Campws Heol Rose Heyworth: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 3)** |
|---|
| Beth sy'n digwydd os bydd yr ysgol yn cau?<br>Sut mae hyn yn digwydd?<br>Beth fydd yn digwydd i'r ysgol os bydd yn cau?<br>Pryd bydd yn rhaid i ni symud? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):**<br>• Dydw i ddim eisiau symud ysgol oherwydd beth os bydd fy ffrindiau'n mynd i ysgol wahanol?<br>• Dydw i ddim eisiau gadael oherwydd rydw i wedi arfer bod yma oherwydd rydw i wedi bod yma ers amser maith.<br>• Efallai na fydd rhai eisiau symud oherwydd efallai y bydd yn rhaid i'w chwaer neu eu brodyr fynd i ysgol wahanol.<br>• Gallwn i fynd i ysgol newydd a chael ffrindiau newydd.<br>• Rydw i eisiau symud oherwydd fe alla i archwilio lle newydd a chwrdd â phobl newydd. Byddwn i'n agosach at Stryd Tyleri.<br>• Dydw i ddim eisiau symud oherwydd efallai y byddwch chi'n byw'n rhy bell oddi wrthi ac efallai y byddwch chi'n hwyr.<br>• Dydw i ddim eisiau symud oherwydd os bydda i'n symud byddwn i'n crio bob dydd.<br>• Os bydd yr ysgol yn cau, bydda i'n gadael Cymuned Ddysgu Abertyleri.<br>• Mae fy holl ffrindiau yma ac rydw i'n poeni am eu gadael.<br>• Bydda i'n colli fy athrawon.<br>• Dydw i ddim eisiau symud oherwydd os bydda i'n mynd i ysgol newydd efallai na fydda i'n gwneud ffrindiau.<br>• Byddwn ni'n dechrau o'r dechrau gyda ffrindiau, a fyddai'n ein gwneud ni'n drist.<br>• Rydw i eisoes wedi symud yma o Stryd Tyleri. |

**3 yn cefnogi'r cynnig; 15 yn peidio â chefnogi'r cynnig**

| **Campws Heol Rose Heyworth: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 4)** |
|---|
| Pam ydych chi'n cau'r ysgol?<br>Pam mae'n rhaid iddi fod ein hysgol ni?<br>Beth fyddai'n digwydd i'r holl athrawon a staff?<br>A fydd yr athrawon yn colli eu swyddi?<br>Pryd ydych chi'n mynd i gau'r ysgol?<br>Sut fydda i'n gallu cerdded i'r ysgol?<br>Sut fyddwn i'n cyrraedd yr ysgol oherwydd nad oes gennym ni gar?<br>Beth fyddai'n digwydd pe na allwn ni fynd i'r ysgolion yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri?<br>Pam na all ysgol arall gau? Ar ba ddyddiad mae'r ysgol yn mynd i gau yn 2027? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):**<br>• Gallai effeithio ar ein haddysg.<br>• Gallai effeithio ar ein cyfeillgarwch.<br>• Dylen nhw symud pobl i'n hysgol ni; mae gennym ni le, mae'r campysau eraill yn orlawn.<br>• Efallai na fyddwn ni'n gweld ein ffrindiau a'n hathrawon eto.<br>• Pan fyddwn ni'n symud ysgolion, gallai'r gwaith yn yr ysgolion eraill fod hyd yn oed yn anoddach i ni. Os byddan nhw'n cau'r ysgol, gallai'r holl athrawon golli eu swyddi.<br>• Os bydd unrhyw un o'n ffrindiau'n mynd i ysgol wahanol, efallai na fyddwn ni byth yn eu gweld nhw eto.<br>• Dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi paratoi'n feddyliol ar gyfer ysgol newydd ac ni fydda i'n canolbwyntio ar fy ngwaith.<br>• Gallai effeithio ar bawb mewn ffordd na allwch chi ei gweld o'ch cwmpas ond mae'n digwydd.<br>• Pan fyddwch chi'n mynd i ysgol wahanol, gallai fod yn anodd gwneud ffrindiau newydd.<br>• Pe baem ni'n mynd i ysgol newydd, ni fydden ni'n gwybod dim am yr hyn sy'n digwydd.<br>• Byddai'n gwneud i bobl deimlo'n drist pe bai eu holl ffrindiau'n mynd i ysgol wahanol.<br>• Fyddwn i ddim yn gallu cerdded i'r ysgol oherwydd byddai'n rhy bell i ffwrdd.<br>• Bydd pobl yn teimlo'n flin oherwydd na fyddan nhw'n gweld eu hathrawon mwyach.<br>• Dydw i ddim eisiau i'r ysgol gau oherwydd rwy'n ei charu. Bydda i'n drist am byth os bydd yn cau.<br><br>**0 yn cefnogi'r cynnig; 18 yn peidio â chefnogi'r cynnig** |

| **Campws Heol Rose Heyworth: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 5)** |
|---|
| Pryd bydd yn cau os bydd yn cau?<br>Pam ydych chi hyd yn oed yn ei chau yn y lle cyntaf?<br>Ydych chi'n mynd i ddymchwel yr ysgol?<br>Os bydd yn cau, beth fydd yma yn ei lle? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):**<br>• Yn ddig – dyma'r unig ysgol sydd o fewn pellter cerdded o fy nhŷ<br>• Wedi drysu – pam wnaethon nhw wastraffu arian yn gosod y drysau diogelwch<br>• Yn drist – rydyn ni i gyd wedi bod yn yr ysgol ers y dosbarth derbyn a 'Mini Me's'; byddai ei gweld yn cau yn drist iawn<br>• Yn nerfus – dydw i ddim yn gwybod sut y bydda i'n ffitio i mewn i gampws gwahanol<br>• Yn ofnus – efallai y bydda i'n cael fy ngwahanu oddi wrth fy ffrindiau<br>• Yn bryderus – mae fy holl ffrindiau'n mynd i'r ysgol hon a dydw i ddim eisiau cael fy ngwahanu oddi wrthyn nhw<br><br>**2 yn cefnogi'r cynnig; 10 yn peidio â chefnogi'r cynnig** |

| Campws Heol Rose Heyworth: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 6) |
|---|
| Pam rydych chi'n gwneud newidiadau i'r ysgol os ydych chi'n mynd i'w chau beth bynnag? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):**<br>• Dydw i ddim yn gwybod pam y dylai fod rhaid i'r plant islaw ni ym Mlwyddyn 6 symud ysgolion! Dydy rhai rhieni ddim yn gyrru felly fydden nhw ddim yn gallu cyrraedd campws gwahanol, yn enwedig pan na fyddai bws ar gael. Hefyd, fydd rhai teuluoedd ddim yn gallu fforddio'r bws i'r campws gwahanol: mae'n £1 i'r dref, felly dyna £5 yr wythnos. Byddai 40 wythnos yn £200, dim ond ar docynnau bws; mae hynny'n llawer o arian, yn enwedig os oes mwy nag un plentyn yn yr ysgol.<br>• Mae awyrgylch da yn yr ysgol, felly pam byddech chi'n cau'r ysgol? Mae pawb yn adnabod pawb yn Rose Heyworth; mae'r campysau eraill yn rhy fawr.<br><br>**1 yn cefnogi'r cynnig; 9 yn peidio â chefnogi'r cynnig** |

| Campws Stryd Tyleri: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 4) |
|---|
| Beth fydd yn digwydd i'r athrawon sy'n gweithio ar gampws Heol Rose Heyworth?<br>Beth fydd yn digwydd i'r adeilad?<br>A fydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhywbeth hollol wahanol i addysgu? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):**<br>• Dyma'r campws hynaf; mae'n arbed arian ac yna gall yr arian hwnnw ddod i'r plant; gallwn wneud ffrindiau newydd.<br><br>**6 yn cefnogi'r cynnig; 17 yn peidio â chefnogi'r cynnig** |

| Campws Six Bells: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 4) |
|---|
| Sut mae cymaint o ddyled ar yr ysgol? A fydd yn rhaid i rai plant Six Bells symud i Stryd Tyleri neu blant Stryd Tyleri symud i Six Bells i wneud lle i blant Rose Heyworth?<br>Pam na all y cyngor dalu mwy o arian i gynnal yr ysgolion?<br>Beth fydd yn digwydd i'r holl liniaduron ac adnoddau eraill, fel y sgriniau teledu a'r byrddau gwyn rhyngweithiol? A fyddant yn cael eu hanfon at Stryd Tyleri a Six Bells neu a fyddant yn cael eu gwerthu i wneud arian?<br>Os byddwn yn cau Heol Rose Heyworth, a fydd hynny'n golygu bod gennym fwy o arian ar gyfer pensiliau, glud ac argraffu oherwydd bod athrawon yn prynu eu glud a'u pensiliau eu hunain oherwydd eu bod yn mynd yn brin drwy'r amser?<br>A fydd cael mwy o blant yn y dosbarth yn golygu bod yn rhaid i'r athrawon brynu mwy o bethau? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):**<br>• Os byddwch chi'n cau Rose Heyworth, bydd y plant yn colli eu hunaniaeth a bydd eu haddysg yn cael ei heffeithio oherwydd bydd angen iddyn nhw symud i rywle nad ydyn nhw'n ei adnabod gyda phlant nad ydyn nhw'n eu hadnabod. Dywedodd un dysgwr y byddai'n gyfle da i wneud ffrindiau. Mae un dysgwr yn meddwl ei fod yn syniad gwael oherwydd bydd yr ystafelloedd dosbarth yn rhy swnllyd ac yn rhy llawn a bydd gennym ni lai o le o amgylch yr ysgol a bydd y ciw cinio yn enfawr.<br><br>**19 yn cefnogi'r cynnig; 5 yn peidio â chefnogi'r cynnig** |

| Campws Six Bells: Cwestiynau i athrawon (Blwyddyn 5) |
|---|
| Ar beth fydd yr arian sy'n cael ei arbed yn cael ei wario?<br>Beth fydd yn digwydd i'r campws? A fydd yn cael ei ddymchwel, ei adael neu ei ailddefnyddio?<br>Sut fydd hyn yn effeithio ar blant o bob campws?<br>Beth fydd yn digwydd i'r holl adnoddau sbâr sydd gan Rose Heyworth?<br>Sut fyddwn ni'n dod o le iddynt? Defnyddir rhai ystafelloedd ar gyfer ymyriadau a chyfarfodydd.<br>Sut ydych chi'n mynd i wneud y meysydd parcio yn ddiogel yn Six Bells?<br>Beth fydd yn digwydd i'r athrawon? A fydd rhai yn colli eu swyddi? A fyddai'n effeithio ar eu cyflog? |
| **Sylwadau gan ddisgyblion (mae enwau wedi'u tynnu i amddiffyn y plant):** |

- Mae'n annheg i'r plant sy'n byw yn Rose Heyworth sy'n gorfod teithio – efallai na fydd eu rhieni'n gallu eu cael yno mewn pryd ac efallai na fyddant yn gallu fforddio hynny. Bydd hyn yn effeithio ar bresenoldeb.
- Byddai'n beryglus cynyddu nifer y lleoedd sydd yn Six Bells. Mae llif y traffig eisoes yn gyfyngedig ac mae eisoes yn anodd croesi'r ffordd / ymuno â'r ffordd. Bydd yn peryglu pawb.
- Byddai angen ymestyn amseroedd cinio i gael pawb drwodd.
- Gallai ffrindiau yn Rose Heyworth gael eu gwahanu os yw rhieni'n penderfynu eu symud – byddai hyn yn effeithio ar lesiant a phresenoldeb.
- Byddai'n rhaid i rieni brynu gwisgoedd ysgol newydd sbon eto – mae hyn yn annheg arnyn nhw ac yn rhy ddrud.
- Byddai angen mwy o offer yn Stryd Tyleri a Six Bells.
- Bydd gan athrawon fwy o lyfrau i'w marcio ac maen nhw eisoes yn gweithio oriau hir.
- Mae athrawon eisoes yn gwario eu harian eu hunain ar adnoddau – sut ydych chi'n disgwyl iddyn nhw fforddio gwneud hynny i fwy o ddysgwyr?

- **3 yn cefnogi'r cynnig; 19 yn peidio â chefnogi'r cynnig**